

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**16/04/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus  
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**  
**Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

**Supporting Higher Education**

**Cefnogi Addysg Uwch**

**Q12 Lesley Griffiths:** What is the Welsh Assembly Government doing to support higher education in Wales?  
OAQ(3)0359(CEL)

**C12 Lesley Griffiths:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi addysg uwch yng Nghymru?  
OAQ(3)0359(CEL)

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** I am committed to a vibrant and competitive higher education sector in Wales and recently set out my strategic priorities, along with a budget allocation for 2008-09, which included a contribution towards pay pressures in higher education. I already provide some £440 million in supporting higher education in Wales.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Yr wyf wedi ymrwymo i sector addysg uwch sy'n ffynnu ac yn gystadleuol yng Nghymru, ac yn ddiweddar nodais fy mlaenoriaethau strategol, ynghyd â dyraniad cyllideb 2008-09, a oedd yn cynnwys cyfraniad tuag at y pwysau o ran cyflogau mewn addysg bellach. Yr wyf eisoes yn darparu tua £440 miliwn i gefnogi addysg uwch yng Nghymru.

**Higher Education**

**Addysg Uwch**

**Q13 Nick Bourne:** Will the Minister make a statement on higher education in Wales?  
OAQ(3)0328(CEL)

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg uwch yng Nghymru?  
OAQ(3)0328(CEL)

**Jane Hutt:** I am proud of the achievements of the higher education sector in Wales and, by working together, seizing opportunities, maximising effectiveness and making best use of the resources available, I am confident that we can continue to deliver a high quality sector that meets the needs of Wales.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn falch o lwyddiannau'r sector addysg uwch yng Nghymru, a thrwy weithio gyda'n gilydd, achub ar gyfleoedd, bod mor effeithiol â phosibl a gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael, yr wyf yn hyderus y gallwn barhau i ddarparu sector o'r radd flaenaf sy'n diwallu anghenion Cymru.

### Skills Training

**Q14 Lesley Griffiths:** What is the Welsh Assembly Government doing to support skills training in Wales? OAQ(3)0358(CEL)

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** 'One Wales' commits us to equipping young people and adults with the skills that they need to fulfil their potential at work, and we have recently completed consultation on a new skills and employment strategy, Skills that Work for Wales.

### Hyfforddiant Sgiliau

**C14 Lesley Griffiths:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi hyfforddiant sgiliau yng Nghymru? OAQ(3)0358(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Yr ydym wedi ymrwymo yn 'Cymru'n Un' i roi'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i oedolion a phobl ifanc er mwyn iddynt gyflawni eu potensial yn y gwaith ac, yn ddiweddar, cwblhawyd ymgynghoriad ar strategaeth sgiliau a chyflogaeth newydd, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

### Increasing Skill Levels

**Q15 Jeff Cuthbert:** What is the Welsh Assembly Government doing to increase skill levels in different sectors of the economy? OAQ(3)0374(CEL)

**John Griffiths:** A sectoral approach to skills development lies at the heart of Skills that Work For Wales. Using sector skills agreements and our sector strategies, our vision is of a demand-led system with valuable qualifications and development opportunities, which is fit for purpose and delivered when and how the sector needs it.

### Cynyddu Lefelau Sgiliau

**C15 Jeff Cuthbert:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynyddu lefelau sgiliau mewn gwahanol sectorau o'r economi? OAQ(3)0374(CEL)

**John Griffiths:** Mae dull fesul sector o ddatblygu sgiliau wrth wraidd Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru. Drwy ddefnyddio cytundebau sgiliau sector a'n strategaethau sector, ein gweledigaeth yw sicrhau system sy'n dibynnu ar y galw, gyda chymwysterau gwerthfawr a chyfleoedd i ddatblygu, sy'n addas i'r diben ac yn cael eu cyflwyno yn ôl anghenion y sector.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery

### Wales Spatial Plan

**Q12 Alun Davies:** Will the Minister provide an update on the Wales spatial plan as it relates to Mid and West Wales? OAQ(3)0294(FPS)

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** The Wales spatial plan outlines the vision, objectives and priorities for central Wales. I am currently consulting on the Wales spatial plan 2008 update. I will consider the responses to the consultation and reflect any changes in the final plan, which I will be bringing to the Assembly for approval.

### Cynllun Gofodol Cymru

**C12 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gofodol Cymru fel y mae'n berthnasol i'r Canolbarth a'r Gorllewin? OAQ(3)0294(FPS)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae cynllun gofodol Cymru'n amlinellu'r weledigaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer canol Cymru. Ar hyn o bryd, yr wyf yn ymgynghori ar yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gofodol Cymru 2008. Byddaf yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn

adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y cynllun terfynol a byddaf yn rhoi'r rhain gerbron y Cynulliad i'w cymeradwyo.

### The Next Census

**Q13 Lesley Griffiths:** Will the Minister make a statement on the next census in Wales? OAQ(3)0283(FPS)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government is represented at all levels of Office for National Statistics census governance and is working closely with the ONS to ensure that Welsh needs are met. A new question on national identity will be asked in 2011.

### Dangosyddion Perfformiad Cynghorau

**C14 David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros lywodraeth leol ynghylch pwysigrwydd dangosyddion perfformiad cynghorau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(3)0282(FPS)

**Andrew Davies:** I have regular discussions with Brian Gibbons about how we use performance management framework data to improve the quality of services provided by local government. Our proposals for improvement agreements with local authorities and national minimum standards have featured in recent discussions.

### Public Service Delivery

**Q15 Sandy Mewies:** How does the Welsh Assembly Government take into consideration differing needs for the improvement of public service delivery in Wales? OAQ(3)0291(FPS)

**Andrew Davies:** Public services are increasingly using a range of techniques to understand better the needs of citizens and service users, ranging from surveys to point of delivery feedback and qualitative research. We are supporting this through the living in Wales survey, the 'Making the Connections' improvement fund and related work.

### Y Cyfrifiad Nesaf

**C13 Lesley Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfrifiad nesaf yng Nghymru? OAQ(3)0283(FPS)

**Andrew Davies:** Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bob lefel o lywodraethu cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n cydweithio'n agos â'r ONS i sicrhau y diwellir anghenion Cymru. Gofynnir cwestiwn newydd am hunaniaeth genedlaethol yn 2011.

### Council Performance Indicators

**Q14 David Lloyd:** What discussions has the Minister had with the Minister for local government regarding the importance of council performance indicators in the delivery of public services? OAQ(3)0282(FPS)

**Andrew Davies:** Rwy'n cynnal trafodaethau'n rheolaidd â Brian Gibbons ynghylch sut y byddwn yn defnyddio data Fframwaith Rheoli Perfformiad i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol. Mae ein cynigion ar gyfer cytundebau gwella ag awdurdodau lleol a safonau gofynnol cenedlaethol wedi bod yn rhan o drafodaethau diweddar.

### Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

**C15 Sandy Mewies:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried anghenion gwahanol ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0291(FPS)

**Andrew Davies:** Mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio cyfres o dechnegau yn gynyddol er mwyn ceisio deall yn well anghenion dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n amrywio o gynnal arolygon i gael adborth am fannau darparu ac ymchwil ansoddol. Yr ydym yn cefnogi hyn drwy'r arolwg byw yng Nghymru, cronfa wella 'Creu'r Cysylltiadau' a gwaith cysylltiedig.

